OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1063 (Cy.154)

CYDRADDOLDEB, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011

Gwnaed - - - - 3 Ebrill 2011

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

Yn unol ag adran 209(2), (3) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**), mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Yn unol ag adran 152(2) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi cael cydsyniad un o Weinidogion y Goron ac wedi ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 151(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

Diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

2. Diwygir Rhan 2 (Awdurdodau Cyhoeddus: Awdurdodau Cymreig Perthnasol) o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel a ganlyn:

(a) ar ôl y cofnod olaf o dan yr is-bennawd "*National Health Service*" mewnosoder—

"The Board of Community Health Councils in Wales or Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.";

(b) yn lle'r cofnod "A county council, county borough council or community council in Wales." rhodder "A county council or county borough council in Wales.";

(c) hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"A Special Health Authority established under section 22 of that Act other than NHS Blood and Transplant and the NHS Business Services Authority.";

(**1**) 2010 p.15.